





# CPLP - Comunidade de Países de Língua Portuguesa

A CPLP é constituída por nove países que foram outrora colónias portuguesas. Atualmente, cada um dos países é independente, no entanto ainda existe uma mistura cultural entre a sua própria e as influências portuguesas.

**Cabo Verde** é um arquipélago composto por 10 ilhas, encontra-se na costa de África perto dos Açores e Canárias. Tem uma paisagem e clima esplendorosos onde o turismo prospera.

**Brasil** é o maior país da América do Sul. É o maior produtor de café do mundo e o lugar de um dos locais mais maravilhosos do mundo, a bacia do Amazonas.

**São Tomé e Príncipe** é um país constituído por diversas ilhas pequenas. É o segundo estado africano mais pequeno e, na altura do Império português, era um importante produtor de açúcar. Atualmente, o seu clima é ideal para as colheitas de cacau e café.

**Guiné Bissau** foi outrora parte integrante do grande império do Mali da África Ocidental.

**Portugal** é o coração da CPLP. Uma das nações mais antigas da Europa, foi outrora um dos países mais poderosos do mundo e com um grande império. É atualmente um dos principais estados da Europa Ocidental.

**A Guiné Equatorial** entrou mais tarde para a CPLP, juntando-se em 2014.

**Angola** é um dos maiores países Africanos e graças ao petróleo tem uma das economias de crescimento mais rápido no mundo.

**Moçambique** é rico em recursos naturais e tem uma grande área agrícola e industrial. É famoso pelas suas figuras de madeira talhada, as suas danças e comidas tradicionais.

**Timor Leste** esteve ocupado pela Indonésia, juntou-se aos outros estados-membros da CPLP em 2011.

# FLAVOUR OF PORTUGAL

## Os Cafés Portugueses de Wrexham



Portuguese BBQ



António Ascensão



Manuel Lima



Maria Mendes



Durante a semana, estamos a trabalhar, a tomar conta das nossas famílias e com os nossos vizinhos galeses. Mas quando chega o fim de semana, vamos aos cafés onde podemos falar em português, saber as novidades e apreciar o prato do dia!

**Joaquim:** Já trabalhei por todo o mundo, e não há melhor do que sentarmo-nos no café português a apreciar boa comida e boa companhia!

**Portuguese BBQ Café:** Nos trazemos só alguns produtos de Portugal. Incluindo chouriços, queijos, vinhos e cervejas. Tudo o resto é local pois queremos tudo fresco. O que torna a comida portuguesa e a maneira como a confeccionamos.

**Carlos:** Eu agora consigo ver pastelaria portuguesa noutros cafés – nós introduzimos a nossa comida no País de Gales!

## Comida



Pastel de nata



Delicadeza Portuguesa - polvo



Cachupa

Nós adoramos os nossos pratos tradicionais – fazemos com que nos juntemos. Nos nossos países de origem, cozinhamos sempre a mais para podermos partilhar com os nossos vizinhos.

Um dos nossos pratos mais conhecidos é a Cachupa. É um guisado cozinhado lentamente, com milho, feijão, cassava e carne. É uma das comidas mais apreciada em Cabo Verde e cada ilha tem a sua maneira de fazer.

**Maria Costa:** Nos não sentimos falta da comida portuguesa porque nos trouxemos-la connosco!

**Zilma:** Quando cheguei há mais de 30 anos era muito difícil encontrar os ingredientes para as minhas receitas, mas agora consigo encontrar tudo!

# Receita de Cachupa

## Ingredientes

- 1 colher de sopa (15 ml) de óleo
- 1 cebola, cortada
- 4 dentes de alho picados
- 2 folhas de louro
- 1 lata (398 ml) de tomates em calda
- 2 chávenas (500 ml) de caldo de galinha
- Toucinho de porco cortado (500 g)
- Couve verde cortada (500g)
- 1 batata doce, descascada e cortada aos cubos
- 1 lata (425g) de milho para cachupa
- 250 ml de feijão vermelho cozido
- 250 g de chouriço



Pedro: "Eu adoro cachupa.  
Eu, adoro **mesmo** cachupa!"

## Método de Cozimento

- Pré-aqueça o forno (160°C)
- No fogão, aqueça o óleo em lume médio. Junte cebola e cozinhe, mexendo, até amolecer, durante 3 minutos. Adicione alho, folhas de louro e deixe cozinhar, mexendo, por 1 minuto. Adicione os tomates em calda e deixe levantar ferver. Adicione o toucinho de porco e deixe voltar a ferver. Reduza o calor e deixe ferver por 30 minutos.
- Adicione e misture a couve, batata-doce, milho, feijão vermelho e chouriço e deixe ferver. Tape e transfira para o forno pré-aquecido. Deixe assar até que a carne de porco e os legumes fiquem tenros, cerca de 30 minutos.
- Retire do forno. Deixe a panela tapada, à temperatura ambiente por cerca de 30 minutos antes de servir. Retire as folhas de louro.



**IOLANDA BANU VIEGAS**  
De Moçambique  
No Reino Unido desde 2001  
Cofundadora da CLPW

Eu vim para o Reino Unido através de uma agência de emprego portuguesa. Disseram-me que ia viver e trabalhar para Londres, mas o autocarro trouxe-nos até Wrexham. Nunca tinha ouvido falar da cidade! Foi árduo encontrar trabalho e um local para viver, mas a minha experiência levou-me a criar a CLPW para poder ajudar outros que se mudem para cá. Já me ofereceram trabalho noutros locais, mas eu e a minha filha já fizemos tantas amizades aqui que já não conseguiríamos sair de cá.

Através da criação da CLPW, aprendi muito sobre a lei britânica, o governo local e sobre o consulado português. Isso tornou-me apta a ser, no Norte do País de Gales, a representante do Race Council Cymru e a coordenadora do National Welsh Teatre (Teatro Nacional Galês) (a trabalhar com os sem abrigo). Fui também eleita como conselheira das comunidades portuguesas no Reino Unido e Irlanda, órgão estabelecido pelo Governo português.



**RUI E ANIETE (Tita) SANCHES**  
De Cabo Verde  
No Reino Unido desde 2013  
Dois filhos, Pedro de 7 anos e Henrique (Ricky) 4.

Nós somos ambos de Cabo Verde, mas de ilhas diferentes. Não nos conhecíamos até nos mudarmos para Portugal para terminar os nossos estudos.

**Tita:** As nossas ilhas são muito diferentes. As influências do Rui são mais africanas enquanto as minhas mais europeias. O Crioulo que falamos também é diferente.

**Rui:** Eu sou licenciado em Engenharia Civil e estou atualmente a trabalhar numa fábrica. Estou a estudar na universidade para obter mais qualificações, a minha entidade patronal apoia-me para que o possa fazer. Todas as pessoas que aqui conhecemos nos encorajaram e nos fizeram sentir bem-vindos.

**Tita:** Eu tenho um mestrado em Política Internacional, estou a trabalhar em tempo parcial enquanto tiro um curso de Informática na escola e tomo conta da minha família. Levo os meninos as suas atividades extracurriculares e estou sempre a conhecer gente nova.



## A Língua Galesa

**Maria Medina:** Nos vivemos no País de Gales e esta é a língua materna. É importante saber a língua para se conhecer a cultura de um país.



Como todas as nossas crianças os gêmeos **Sidney e Ty** estão a aprender galês na escola. A maioria dos nossos jovens é trilingue e fala português, galês e inglês – e alguns deles também falam a língua do seu país natal.

**Tita:** Nós vamos aprendendo algumas palavras em Galês graças aos nossos filhos que estão a aprender na escola.

## País de Gales

O País de Gales tem uma paisagem maravilhosa – campo, montanhas e linha costeira.

**Maria C:** Eu adoro Snowdonia. Vou caminhar para lá sempre que posso e levo lá a minha família sempre que me vem visitar.

**Lisinayte:** Já visitei locais por todo o País de Gales: Snowdonia, Caernarfon, Cardiff, Llangollen.... Tenho muita sorte.



## Wrexham

Sabíamos muito pouco sobre Wrexham antes de cá chegarmos, mas agora é a nossa casa.

**Graça:** Adoro fazer parte da comunidade Portuguesa, mas também gosto de estar no País de Gales. Falo sempre com os idosos locais sobre a história do País de Gales.

**Cristiana:** Eu não gosto de cidades grandes e movimentadas por isso Wrexham é excelente. Não é demasiado grande, mas há de tudo aqui.

**Iolanda:** No início não conseguia perceber porque é que Chester, apenas a 10 minutos, era num país diferente, com leis e língua diferentes. Agora sou apaixonada pelo País de Gales.



**MARIA COSTA**  
**De Portugal**  
**No Reino Unido desde 2002**  
**Ama profissional**

Sempre gostei de novos desafios e alcancei muitos dos meus sonhos aqui – trabalhar num hotel, comprar o meu carro preferido e gerir uma creche. Os meninos de quem tomo conta são de todo o mundo, Polónia, Grécia, Lituânia, Nigéria... Tento sempre saber datas importantes desses países para que possamos comemorá-las. Tenho tantos meninos e empregados na creche que agora até vamos mudar para umas instalações maiores.

Eu venho de uma família grande, mas sou a única no Reino Unido. Falamos constantemente por telemóvel ou Skype.

Família: Marido José Tavares; filho Hugo Tavares, esposa Laura Fitton, criança Olivia Tavares (4); filho Nuno Tavares, esposa Laura Davenport, crianças Jamie Davenport (9), Daisy Mae Tavares (4)



**ZILMA PEREIRA**  
**No Reino Unido**  
**desde 1986**  
**Do Brasil**

Conheci o meu marido galês, Brinley Williams, em São Paulo, no Brasil. Ele estava lá a trabalhar como Engenheiro de Minas. São Paulo é uma cidade grande e estimulante, mas eu amei vir para o País de Gales, é lindo. Fiquei fascinada no meu primeiro inverno. Embora haja neve nas zonas montanhosas do Brasil, mas ainda assim foi surpreendente ver de perto.

Estou no Reino Unido há mais tempo do que a maioria da CLPW, e o mais difícil para mim foi a comida, não havia muitas lojas de comida internacional por aqui. Agora, não há problemas. Os nossos Natais são uma mistura de comida galesa e brasileira, mas eu sinto falta dos Natais do meu país, com todos sentados a mesa.

Mas nunca me sinto sozinha aqui. Tento fazer algo novo a toda a hora, ando muito, misturo-me com as pessoas, não paro.



## CLPW - o nosso trabalho

Nós começamos só com uma página no Facebook partilhando informações sobre o que fazer para viver em Wrexham. Agora somos uma CIC (Companhia de interesse comunitário), reconhecida pelo Wrexham Council (Município de Wrexham) e pelo Governo português.

As pessoas contactam-nos a toda a hora: Como faço para renovar o Cartão do Cidadão português, como é que consigo ter o número de segurança social britânico, onde posso marcar para ir ao médico, e tantas outras questões.

Um casal em que ambos se encontravam doentes na mesma altura, não conseguiam ir levar a filha à escola. Colocámos um pedido de ajuda na página do Facebook, imediatamente 20 pessoas se disponibilizaram.

**Graça:** Eu peço ajuda a CLPW constantemente, não tenho como ir a outro lado, nem sequer ao consulado de Portugal ou ao Apoio ao Cidadão (Citizens Advice)

A CLPW significa muito para nos – há 12 anos praticamente ninguém em Wrexham sabia que viviam aqui portugueses, agora todos sabem.

## CLPW - a nossa diversão

Nós estamos sempre atentos a possíveis apoios para fazermos várias atividades com a nossa comunidade. Estas sessões ajudam as pessoas a melhorar as suas competências, manter-se ativas e a integrar-se. Nós temos aulas de informática, aulas de Inglês e Galês, seminários de artes, entre outros.

Nós trabalhamos em parceria com diversas organizações. Por exemplo já realizamos um evento de comida tradicional comunitária, com a comunidade Polaca de Wrexham. Atualmente estamos a fortalecer a parceria com o novo centro de artes galês de Wrexham, TŷPawb.

Todos os anos em outubro celebramos o mês da história negra – a festa dura horas e nós realmente gostamos de partilhar a nossa herança cultural com os outros.





**CARLA SILVA (2013)**  
**DOMINGOS SOUSA (2013)**  
**CRISTIANA RASTEIRO (2015)**  
**ANTONIO SILVA (2015)**  
**De Portugal**  
**Gerentes do BBQ Café**

Gerir este café e um negócio familiar. A Carla e o Domingos são casados bem com a Cristiana e o António. E a Carla e o António são irmãos.

**António:** Sou desenhador na indústria de construção em aço. Foi um pouco de desafio começar aqui, habituar-me as diferentes unidades de medida (polegadas em vez de centímetros) e aprender os termos técnicos em Inglês, mas para além disso, foi ótimo. Trabalho com clientes de todo o Reino Unido.

A maioria da nossa vida social e feita fora da comunidade portuguesa. Vamos ao pub local e falamos com toda a gente. A maior diferença ente em Portugal e aqui é o tamanho das canecas de cerveja – Pint é muito grande e metade é demasiado pequena.

**Cristiana:** Já fiz grandes amigos aqui e falar inglês ajudou-me. Falo bem porque gosto muito de ver filmes, mas detesto ler as legendas! Estava reticente em vir para cá, mas agora gosto imenso. Costumava ter cabelo comprido, mas cortei-o o ano passado para angariar dinheiro para a luta contra o cancro (McMillian Cancer Support).

**Carla:** A nossa filha adolescente não teve qualquer problema em mudar-se para cá e agora ainda esta mais feliz pois tem um namorado. Já ouvimos pessoas a queixar-se de terem sido aqui vítimas de racismo, mas para nós todos têm sido simpáticos e agradáveis.

**Domingos:** Eu tinha a minha própria empresa de construção em Portugal, mas quis ver como era a vida em Wrexham. Não gosto nada de andar de avião então enchi a carrinha com coisas e vim a conduzir todo o caminho. Comecei a trabalhar na construção e assim fiquei – todos me reconhecem na zona de Wrexham porque tenho trabalhado muito por aqui.



**LISINAYTE LOPES**  
**No Reino Unido desde 2012**  
**De São Tome**  
**Trabalhadora na área Social no Bawso**

Eu acabei os estudos em Portugal, mas vim para cá para melhorar o meu Inglês. Eu contactei o Bawso de imediato pois eles apoiam as minorias étnicas. Eles ajudaram-me a pedir o número de segurança social britânico e inscreveram-me na Coleg Cambria onde consegui aperfeiçoar o meu inglês. Ofereci-me como voluntaria no Bawso desde o início e fiquei encantada quando consegui um emprego lá para apoiar vítimas de violência doméstica. Eu trabalho com paixão – as pessoas chegam até mim desesperadas e eu estou lá para as ajudar. Estou atualmente a tirar o mestrado em Criminologia. É um desafio, mas vale a pena.

A comunidade de São Tome em Wrexham significa muito para mim. Todos os anos organizo uma festa para celebrar o dia da Independência de São Tome (12 de julho de 1975). Como a data é perto do dia da independência de Cabo Verde convido também os meus amigos de Cabo Verde. Trago várias malas de São Tome com material para que consiga decorar a sala para a festa.

**ROSA GOMES**  
**No Reino Unido desde 2014**  
**De São Tome**  
**Mãe da Lisinayte e do Aurio**

Estou feliz por estar aqui a apoiar a minha família, mas sinto a falta da proximidade da vida em comunidade como em São Tome e Portugal. Com sorte consigo ter aqui os ingredientes que preciso para cozinhar e eu uso todas as especiarias do meu país. Faço calulu, um guisado de peixe com plátano, cassava e couve verde.



## O que trouxemos connosco

Aqui estão alguns dos objetos especiais que trouxemos para nos lembrar do nosso país.

**Lisinayte:** Começo por onde? Bandeiras, cascas de coco talhadas, esculturas de madeira, tecidos coloridos – várias malas de coisas!



Maria C

**Carla:** Vinho para um ano!

Este é um dos meus recipientes para cozinhar preferidos.



Tita

As minhas receitas de culinária.



Zilma

Estas pedras coloridas. O Brasil famoso é pelas suas pedras devido ao minério. Eu adoro vê-las e tocar-lhes, é tão relaxante.



**JOSÉ REIS**  
**No Reino Unido desde 2004**  
**De Portugal**

Vimos para Wrexham para trabalhar. Ao mesmo tempo que eu e a minha mulher gerimos o café e a loja, também trabalho em Manchester. Cada manhã, enquanto a Lúcia arranja os miúdos para ir para a escola, eu abro o café. Ela depois substitui-me para eu poder ir trabalhar. Não fechamos o café até às 9h da noite. Queremos assegurar-nos de que os nossos filhos tenham uma boa vida.

A CLPW tem-nos ajudado tanto a aprender sobre os países que falam português em todo o mundo. Eu sou de uma aldeia muito pequena em Portugal, quase não conhecemos ninguém das antigas colónias Portuguesas. Aprendi muito sobre os países da CPLP desde que estou aqui. É maravilhoso conhecer tanta gente.

Esposa: **Lúcia Resende**

**GRAÇA FRAGOSO**  
**No Reino Unido desde 2003**  
**De Portugal**  
**Gere o Restaurante Vasco**  
**da Gama**

A minha avó era de Moçambique e vivi lá durante seis anos. Ainda tenho lá família. Sempre trabalhei em restaurantes e sempre trabalhei arduamente. Durante a semana os nossos clientes são, na sua maioria, britânicos, mas aos fins de semana são maioritariamente portugueses.



*Graça*

**Anabela Vasconcelos**  
**No Reino Unido desde 2004**  
**De Portugal**

Estava curiosa em saber mais sobre o Reino Unido porque conheci muitos britânicos de férias em Portugal. Já tinha ouvido falar do País de Gales e quis saber mais sobre o país. O que particularmente me interessou foram as palavras e nomes em galês que ouvi no filme Senhor dos anéis. Sou casada com um galês por isso sei agora muito mais sobre o País de Gales.

Sinto saudades da minha família e amigos do meu país, mas mantenho as suas fotografias comigo. O café português é muito importante para mim, trabalho a semana toda e venho aqui para me distrair com pessoas conhecidas.



*Anabela*




**TED REVOLTA e VERONICA ALVES**  
**No Reino Unido desde 2009**  
**De Portugal**

Vimos para trabalhar, e tem corrido bem. Nós sentimos a falta da família lá na nossa terra, mas nunca nos sentimos perdidos pois as nossas raízes portuguesas são ainda fortes. Agora estamos novamente a conectarmo-nos com Portugal e queremos saber mais sobre o nosso país. Queremos que os nossos filhos aprendam a sua história.



**CARLOS ALBERTO DAIO**  
**No Reino Unido desde 2001**  
**De Angola**

Em Angola eu era jornalista numa rádio católica. Eu adorava o meu trabalho, mas tive de sair de lá por causa da guerra. Já vivi em muitos locais do Reino Unido, incluindo Cardiff e Birmingham, mas gosto muito daqui. No entanto ainda sinto muita falta de Angola – o clima, as praias. Falar disso agora ainda me faz mais sentir saudades.



**AURIO LOPES e MARIA MEDINA**  
**No Reino Unido desde 2015**  
**De Cabo Verde e São Tome**

Nós recomendamos vivamente que outros venham para Wrexham pois tem tantas oportunidades. Apesar de sentirmos falta da família, já conhecemos tanta gente aqui.

O Aurio tem uma licenciatura em engenharia biomédica e estamos a aprender galês para sabermos mais sobre o nosso novo lar.

**O que é que sentimos mais falta do nosso país natal.**

“O sol!”

“O sol!”

“O sol!”

“O sol!”



*Maria C*

Não importa onde vives, não deixes de sonhar. Torna os teus sonhos realidade. Eu tornei os meus.



*Zilma*

A minha mãe disse-me: “Em Roma sê romano.” Desde o início que tentei ser sempre simpática, entender as diferenças e aprender a cultura do local onde estou a viver. É importante.

**Conselho para as pessoas que se mudam para algum lugar novo**



*Graça*

Transmitir a nossa herança cultural às gerações mais novas. Sim, devemos aprender sobre o nosso novo país, mas também transmitir as nossas tradições aos nossos filhos.



*Maria M*

Acredita em ti. Tu consegues.

# Pwy ydyn ni?

Er ein bod yn siarad Portiwgaleg, nid o Bortiwgal y mae llawer ohonon ni'n dod. Mae rhai ohonon ni yn dod o'r naw gwlad o gwmpas y byd lle mae Portiwgaleg yn iaith swyddogol.

Yr hyn sydd gennym yn gyffredin, heblaw am siarad Portiwgaleg, yw ein cariad at deulu, cymuned a gwaith caled. Rydyn ni wedi dod â'r gwerthoedd hyn efo ni i Wrecsam.

## CLPW - Cymuned Siaradwyr Portiwgaleg Wrecsam

CLPW - Cymuned Siaradwyr Portiwgaleg Wrecsam

Mae yna tua 2,000 o siaradwyr Portiwgaleg yn byw yn ac o gwmpas Wrecsam. Rydyn ni'n byw mewn gwahanol rannau o'r dref, yn integreiddio i'n cymunedau Cymreig ac yn byw ein bywydau. Ond gall symud i wlad newydd fod yn hynod anodd ac felly fe wnaethon ni sefydlu CLPW i'n helpu i gadw cysylltiad efo'n cyfeillion Portiwgaleg eu hiaith. Mae CLPW yn rhoi cyngor ar faterion cyfreithiol a materion lleol, yn ein helpu i rannu syniadau ac yn gadael i ni wybod pa bryd fydd y parti Portiwgeaidd nesaf yn cael ei gynnal (edrychwch ar ein tudalen Facebook).

Mae CLPW yn ein helpu i setlo ac yn ein cadw mewn cysylltiad.





# CPLP - Y Gymuned o Wledydd Portiwgaleg eu Hiaith

Mae'r CPLP yn cynnwys naw gwlad. Roedd y gwledydd hyn yn arfer bod yn rhan o gyn-ymerodraeth Portiwgal. Mae pob gwlad yn annibynnol erbyn hyn ac yn cyfuno eu ddiwylliannau unigryw eu hunain efo dylanwadau Portiwgeaidd.

Mae **Cape Verde** yn cynnwys 10 o ynysoedd. Mae'n sefyll wrth ymyl arfordir Affrica, yn agos i'r Azores a'r Ynysoedd Dedwydd. Gyda golygfeydd anhygoel a hinsawdd ardderchog, mae masnach dwristiaeth yr ynysoedd yn ffynnu.

**Brasil** yw'r wlad fwyaf yn Ne America. Dyma'r cynhyrchwr coffi mwyaf yn y byd, ac mae'n gartref i un o'r lleoedd mwyaf trawiadol ar wyneb y ddaear, basn yr Amason.

Mae **São Tomé e Príncipe** yn ffurfio gwlad wedi'i gwneud o nifer o ynysoedd bychain. Hi yw'r ail leiaf o wladwriaethau Affrica a phan oedd Ymerodraeth Portiwgal yn ei hanterth, roedd yn gynhyrchwr siwgr sylweddol. Mae ei hinsawdd yn ddelfrydol ar gyfer ei chnydau presennol, sef coco a choffi.

Bu **Guinea Bissau** unwaith yn rhan o Ymerodraeth Mali Gorllewin Affrica.

**Portiwgal** sydd wrth galon CPLP. Hi yw un o'r cenhedloedd hynaf yn Ewrop ac roedd unwaith yn un o'r gwledydd mwyaf pwerus yn y byd. Heddiw, mae'n wladwriaeth bwysig yn y Gorllewin.

Roedd **Gini'r Cyhydedd** yn hwyr yn ymuno â'r CPLP, dim ond yn 2014 y daeth yn aelod.

**Angola** yw un o wledydd mwyaf Affrica, ac oherwydd ffyniant y diwydiant olew yno, mae twf ei heconomi ymysg y cyflymaf yn y byd.

Mae gan **Mozambique** gyfoeth o adnoddau naturiol ac mae yno ddiwydiannau amaethyddol a gweithgynhyrchu mawr. Mae'n enwog am ei ffigurau pren wedi'u cerfio, ei ddawnsio a'i fwyd.

Arferai **Gorllewin Timor** fod yn rhan o Indonesia ond ymunodd â CPLP yn 2011.

# FLAVOUR OF PORTUGAL

## Caffis Portiwgeaidd Wrecsam



Portuguese BBQ



António Ascensão



Manuel Lima



Maria Mendes

Yn ystod yr wythnos, rydyn ni allan yn gweithio, yn edrych ar ôl ein teuluoedd ac yn cyfarfod â'n cymdogion Cymreig. Pan ddaw hi'n benwythnos, rydyn ni yn y caffis, lle gallwn siarad Portiwgaleg, dal i fyny ar hynt a hanes pawb a mwynhau'r bwyd sydd ar gael y diwrnod hwnnw.

**Joaquim:** Rydw i wedi gweithio ym mhedwar ban byd, ond does dim byd tebyg i eistedd gyda ffrindiau mewn caffi Portiwgeaidd, yn mwynhau'r bwyd a'r cwmpeini.

**Caffi BBQ Portiwgeaidd:** Dim ond rhai o'r cynhyrchion rydyn ni'n eu cael o Bortiwgal. Mae'r rhain yn cynnwys chorizo, cawsiau, gwinoedd a chwrw. Mae popeth arall yn lleol, gan ein bod eisiau iddo fod yn ffres. Yr hyn sy'n ei wneud yn Bortiwgeaidd yw'r ffordd rydyn ni'n ei goginio.

**Carlos:** Nawr, rydw i'n gweld cacennau Portiwgeaidd mewn caffis eraill – rydyn ni wedi cyflwyno ein bwyd i Gymru!

## Bwyd



Pastel de nata



Danteithbwyd Portiwgeaidd – octopws



Cachupa

Rydyn ni wrth ein boddau gyda bwyd – mae'n dod â ni at ein gilydd. Yn ôl yn ein mamwledydd, rydyn ni bob amser yn coginio gormod er mwyn gallu ei rannu e fo'n cymdogion.

Un o'n bwydydd mwyaf adnabyddus o Orllewin Affrica yw cachupa. Potes wedi'i goginio'n araf yw hwn, gyda chorn, ffa, casafa a chig ynddo. Mae'n ffefryn yn Cape Verde, ac mae gan bob ynys ei fersiwn ei hun.

**Maria C:** Dydyn ni ddim yn hiraethu am fwyd Portiwgeaidd o gwbl – gan ein bod wedi dod â fo efo ni!

**Zilma:** Pan ddois i yma gyntaf dros 30 mlynedd yn ôl, roedd yn anodd cael cynhwysion i fy rysetiau, ond erbyn hyn mi fedra i gael gafaél ar y cwbl.

# Rysáit cachupa



## Cynhwysion

- 1 llwy fwrdd (15ml) o olew
- 1 nionyn, wedi'i dorri'n fân
- 4 ewin garlleg, wedi'u malu'n fân
- 2 ddeilen llawryf
- 1 tun (14 owns/ 398ml) tomatos, yn cynnwys y sudd
- 2 gwpan (500ml) o stoc cyw iâr
- Porc bol wedi'i dorri (1 pwys/500g)
- Bresych gwyrdd wedi'i dorri (tua 1 pwys /500g)
- 1 taten felys, wedi'i phlicio a'i thorri'n giwbiau
- 1 tun (15 owns/425g) o homini, wedi'i ddraenio
- 1 cwpan (250ml) ffa Ffrengig wedi'u coginio a'u draenio
- 8 owns (250g) o dafelli sosej chorizo wedi'i halltu




*Pedro: "Rydw i'n hoffi cachupa – rydw i wrth fy modd oho cachupa!"*



## Sut i'w goginio

- Cynheswch y popty i 325°F (160°C).
- Ar y stof, cynheswch yr olew dros wres canolig. Ychwanegwch y nionyn a'i goginio, gan gymysgu, nes bydd yn feddal, tua 3 munud. Ychwanegwch y garlleg a'r dail llawryf a'i goginio, gan gymysgu, am 1 munud. Ychwanegwch y tomatos a'u sudd, ynghyd â'r stoc, a'i ferwi. Ychwanegwch y porc bol a'i ferwi. Trowch y gwres i lawr a'i ffrwtian am 30 munud.
- Rhowch y bresych, tatws melys, homini, ffa Ffrengig a'r chorizo i mewn a'i ferwi. Rhowch gaead ar y cwbl a'i symud i bopty a gynheswyd ymlaen llaw. Pobwch nes bydd y porc yn frau a'r llysiau wedi goginio, tua 30 munud.
- Tynnwch o'r popty. Gadewch i'r cwbl sefyll, dan gaead, ar dymheredd yr ystafell am tua 30 munud cyn ei weini. Cofiwch dynnu'r dail llawryf a'u taflu.



**IOLANDA BANU VIEGAS**  
**O Mozambique**  
**Yn y Deyrnas Unedig ers 2001**  
**Un o sylfaenwyr CLPW**

Fe ddois i i'r Deyrnas Unedig trwy asiantaeth swyddi Bortiwgeaidd. Fe wnaethon nhw ddweud y buaswn i'n byw ac yn gweithio yn Llundain, ond fe wnaeth y bws ein danfon i Wrecsam. Doeddwn i erioed wedi clywed am y lle! Roedd yn gyfnod hegr o ddysgu; dod o hyd i waith a rhywle i fyw, ond fe wnaeth fy mhrofiadau fy arwain i sefydlu CLPW fel 'mod i'n gallu helpu pobl eraill a oedd yn symud yma. Ers hynny, rydw i wedi cael cynnig swyddi mewn ardaloedd eraill, ond rydw i a fy merch wedi gwneud cymaint o ffrindiau yma, ni fydden ni'n gallu gadael erbyn hyn.

Rydw i wedi dysgu cymaint am gyfraith Prydain, llywodraeth leol a'r Gonswliaeth Bortiwgeaidd trwy sefydlu CLPW. Mae hyn wedi fy ngalluogi i gael rôl arweiniol gyda Race Council Cymru yng ngogledd Cymru, ac fel cydlynnydd i Theatr Genedlaethol Cymru (yn gweithio gyda phobl ddigartref). Rydw i hefyd yn gynghorydd etholedig ar y pwyllgor o bobl Portiwgeaidd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, corff a sefydlwyd gan lywodraeth Portiwgal.



*Iolanda*



**RUI ac ANIETE (Tita) SANCHES**  
**O Cape Verde**  
**Yn y Deyrnas Unedig ers 2013**  
**Dau fab: Pedro, 7 mlwydd oed, a Henrique (Ricky) 4.**

O Cape Verde rydyn ni'n dau'n dod, ond o wahanol ynysoedd. Wnaethon ni ddim cwrdd nes roedden ni wedi symud i Bortiwgal i orffen astudio.

**Tita:** Mae ein hynysydd yn wahanol iawn i'w gilydd. Mae mwy o ddylanwad Affricanaidd ar ynys Rui, ac mae f'un i'n fwy Ewropeaidd. Mae'r creoleithoedd rydyn ni'n eu siarad yn wahanol hefyd.

**Rui:** Fe wnes i hyfforddi fel peiriannydd sifil ac rydw i'n gweithio mewn gweithgynhyrchu rŵan. Rydw i'n astudio am gymwysterau pellach yn y brifysgol ac mae fy nghyflogwr yn fy nghfnogi yn hynny. Mae pawb rydyn ni wedi cwrdd â nhw yma wedi ein hannog a gwneud i ni deimlo bod croeso i ni.

**Tita:** Mae gen i radd meistr mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol, ac rydw i'n gweithio rhan amser tra'r ydwn i'n cwblhau cwrs TG yn y coleg ac yn edrych ar ôl y teulu. Rydw i'n mynd â'r hogiau i'w gweithgareddau ar ôl ysgol ac rydw i'n cyfarfod pobl newydd trwy'r amser.



## Yr Iaith Gymraeg

**Maria Medina:** Rydyn ni'n byw yng Nghymru a Chymraeg yw'r famiaith yma. Mae'n bwysig deall yr iaith er mwyn deall diwylliant gwlad. Rydyn ni'n dysgu Cymraeg er mwyn cael closio at bobl Cymru.



Fel ein plant i gyd, mae'r efeilliaid **Sidney** a **Ty** yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'n pobl ifanc yn siarad tair iaith – Portiwgaleg, Cymraeg a Saesneg – ac mae rhai yn siarad iaith eu mamwlad hefyd.

**Tita:** Rydyn ni'n dysgu Cymraeg trwy ein meibion, sy'n dysgu'r iaith yn yr ysgol.

## Cymru

Mae gan Gymru olygfeydd trawiadol – cefn gwlad, mynyddoedd ac arfordir.

**Maria C:** Rydw i wrth fy modd efo Eryri. Rydw i'n mynd yno i gerdded pan bynnag fydda i'n cael cyfle, ac rydw i'n mynd â fy nheulu yno pan maen nhw'n ymweld â fi.

**Lisinayte:** Rydw i wedi teithio hyd a lled Cymru – Eryri, Caernarfon, Caerdydd, Llangollen... rydw i mor lwcus.



## Wrexham

Doedden ni ddim yn gwybod llawer o gwbl am Wrexham cyn symud yma ond yma mae ein cartref erbyn hyn.

**Graça:** Rydw i wrth fy modd yn bod yn rhan o'r gymuned Bortiwgeaidd, ond rwyf hefyd yn hoffi bod yng Nghymru. Rydw i bob amser yn sgwrsio efo'r bobl hŷn lleol yn y caffï am hanes Cymru.

**Cristiana:** Dydw i ddim yn hoffi trefi mawr prysur felly mae Wrexham yn grêt. Dydi hi ddim yn dref rhy fawr, ond mae popeth ar gael yma.

**Iolanda:** I ddechrau, fedrwn i ddim deall sut fod Caer ddim ond 10 munud i ffwrdd ond mewn gwlad arall gyda chyfreithiau gwahanol ac iaith wahanol. Erbyn hyn, rwy'n angerddol dros Gymru.




**MARIA COSTA**  
**O Bortiwgal**  
**Yn y Deyrnas Unedig ers 2002**  
**Mae hi'n rhedeg busnes gwarchod plant**

Rydw i wedi mwynhau heriau newydd erioed, ac rydw i wedi gwireddu cymaint o fy mreuddwydion yma – gweithio mewn gwesty, prynu fy hoff gar, a rhedeg meithrinfa. Mae'r plant rydw i'n gofalu amdanyn nhw yn dod o bedwar ban byd: Gwlad Pwyl, Groeg, Lithwania, Nigeria... rydw i'n dysgu'r dyddiadau pwysig yn niwylliant y gwledydd hyn er mwyn i ni gael eu dathlu. Mae gen i gymaint o blant a staff yn y feithrinfa erbyn hyn, rydyn ni'n symud i safle mwy.

Roedd fy nau fab yn eu harddegau yn ansicr am symud yma, ond buan y gwnaethon nhw setlo, yn enwedig pan wnaethon nhw ddechrau cymryd rhan mewn chwaraeon a chwrdd â merched. Mae gan y ddau eu teuluoedd eu hunain yma erbyn hyn.

Rydw i'n dod o deulu mawr, ond fi yw'r unig un yn y Deyrnas Unedig. Rydyn ni'n sgwrsio ar y ffôn neu trwy Skype drwy'r amser.

Teulu: Gwr José Tavares; mab Hugo Tavares, gwraig Laura Fitton, plentyn Olivia Tavares (4); mab Nuno Tavares, gwraig Laura Davenport, plentyn Jamie Davenport (9), Daisy Mae Tavares (4)



**ZILMA PEREIRA**  
**Yn y Deyrnas Unedig ers 1986**  
**O Frasil**

Fe wnes i gyfarfod fy ngŵr o Gymru, Brinley Williams, yn São Paulo, prifddinas Brasil. Roedd o'n gweithio yno fel peiriannydd mwyngloddio. Mae São Paulo yn ddinas fawr, gyffrous, ond roeddwn i wrth fy modd yn dod i Gymru, mae hi mor hardd yma. Roedd fy ngeaf cyntaf yma yn rhyfeddod i mi. Er ein bod yn cael eira ym mynyddoedd Brasil, roedd yn dipyn o syrpreis cael profiad mor agos ohono.

Rydw i wedi bod yn y Deyrnas Unedig ers cyfnod hirach na'r rhan fwyaf o CLPW, a'r peth anoddaf i mi ar y dechrau oedd bwyd, doedd dim llawer o fwyd rhyngwladol ar gael bryd hynny. Y dyddiau yma, does dim problem. Mae ein Nadolig yn gyfuniad o fwydydd Cymreig a Brasilaidd, ond rydw i'n hiraethu am Nadoligau teuluol mawr fy mamwlad, gyda phawb rownd y bwrdd. Ond dydw i byth yn teimlo'n unig yma. Rydw i'n ceisio dysgu rhywbeth newydd trwy'r amser, rydw i'n cerdded llawer, yn cymdeithasu gyda phobl, rydw i wrthi'n ddi-baid.





**CARLA SILVA (2013)**  
**DOMINGOS SOUSA (2013)**  
**CRISTIANA RASTEIRO (2015)**  
**ANTONIO SILVA (2015)**  
**O Bortiwgal**  
**Rhedeg y caffi BBQ Portiwgeaidd**

Mae rhedeg y caffi'n fusnes i'r teulu oll. Gŵr a gwraig yw Carla a Domingos, felly hefyd Cristiana ac Antonio. Ac mae Antonio a Carla yn frawd a chwaer.

**Antonio:** Dyluniwr yn y diwydiant adeiladu dur ydw i. Roedd yn dipyn o her yma i ddechrau, arfer gyda gwahanol fesuriadau (modfeddi yn lle centimedrau) a dysgu'r termau technegol yn Saesneg, ond, heblaw am hynny, mae wedi bod yn wych. Rydw i'n gweithio gyda chleientiaid ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig.

Mae'r rhan fwyaf o'n cymdeithasu yn digwydd y tu allan i'r gymuned Bortiwgeaidd. Mi fyddwn ni'n galw draw i'r dafarn leol ac yn sgwrsio efo pawb. Y gwahaniaeth mwyaf rhwng Portiwgal a fan hyn yw maint y cwrw – mae peint yn rhy fawr a hanner yn rhy fach!

